

# Diogelu ein Hetifeddiaeth Ddiwydiannol

## Protecting our Industrial Heritage

B W R D D  
H E N E B I O N  
C Y M R U

ADRODDIAD BLYNYDDOL  
1999-2000

A N C I E N T  
M O N U M E N T S  
B O A R D F O R  
W A L E S

ANNUAL REPORT  
1999-2000





B W R D D

H E N E B I O N

C Y M R U

46<sup>ED</sup>

ADRODDIAD

BLYNYDDOL

1999–2000

Cyflwynwyd i Gynulliad  
Cenedlaethol Cymru yn unol ag  
Adran 23 o Ddeddf Henebion  
a Mannau Archaeolegol 1979  
ac fel y'i diwygiwyd gan adran 45  
Deddf Llywodraeth Cymru 1998

A N C I E N T

M O N U M E N T S

B O A R D F O R

W A L E S

46<sup>TH</sup>

ANNUAL REPORT

1999–2000

Presented to the National  
Assembly for Wales  
in pursuance of Section 23 of the  
Ancient Monuments and  
Archaeological Areas Act 1979  
as amended by section 45 of the  
Government of Wales Act 1998



Adeilad y Goron  
Parc Cathays  
Caerdydd CF10 3NQ

Crown Building  
Cathays Park  
Cardiff CF10 3NQ

At  
**Ms Sue Essex AC**  
*Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

To  
**Ms Sue Essex AM**  
*National Assembly for Wales*

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r adroddiad hwn i chi gan Fwrdd Henebion Cymru, sef y cyntaf i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol. Croesawn y cyfle i gynghori'r Cynulliad ar henebion a'r amgylchedd hanesyddol ac edrychwn ymlaen yn frwdfrydig at gynnig mwy o gyfarwyddyd i chi ar y fath faterion. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'n gwaith yn ystod 1999–2000 gan ganolbwyntio'n arbennig ar y modd gorau i ddiogelu ein henebion diwydiannol.

I am pleased to present you with this report of the Ancient Monuments Board for Wales — the first we have presented to the National Assembly. We welcome the opportunity to advise the Assembly on ancient monuments and the historic environment and look forward with enthusiasm to offering you further guidance on such matters. This report outlines our work during 1999–2000, focusing particularly on how best to protect our industrial monuments.

Mae etifeddiaeth archeolegol gyfoethog gan Gymru ac ystyriwn ei bod o'r pwysigrwydd pennaf fod hyn yn cael ei ddiogelu a'i reoli, nid yn unig er mwyn ein mwynhad heddiw – a'r potensial ychwanegol i dwristiaeth ac addysg – ond hefyd er budd y cenedlaethau a ddél.

Wales has a rich archaeological heritage and we consider that it is of the utmost importance that this is protected and managed, not only for present enjoyment — and the added tourism and educational potential — but also for the benefit of future generations.

Trwy'r amrywiaeth o arbenigedd sydd ganddo yn y prif gyfnodau hanesyddol a'r mathau ar henebion, mae'r Bwrdd wedi cynghori cyn-Ysgrifenyddion Gwladol Cymru ar ystod o faterion polisi. Gan gydweithio â Cadw :Welsh Historic Monuments, mae'r Bwrdd wedi cynghori ar y blaenoriaethau o ran cofrestru henebion ac arbed archeoleg ac mae wedi cynorthwyo i ddiogelu agweddau pwysig o etifeddiaeth Cymru, cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o faterion sydd o bwysigrwydd archeolegol a hyrwyddo integreiddiad agosach

Through its collective expertise over the major historical periods and types of monument, the Board has advised former Secretaries of State for Wales on a range of policy issues. Working with officials of Cadw: Welsh Historic Monuments, the Board has advised on priorities for scheduling monuments and for rescue archaeology and has helped to safeguard important aspects of the Welsh heritage, increase public awareness of issues of archaeological importance and promote closer integration between the

rhwng y sefydliadau sydd ynghlwm wrth yr amgylchedd hanesyddol yn ei ystyr fwyaf eang.

Ar gyfer 1999–2000 a'r blynyddoedd i ddod, yn ogystal â'i gyngor cyffredinol, penderfynodd y Bwrdd ganolbwyntio ar themâu blynyddol neilltuol. Mae'r gyntaf o'r rhain yn archwilio'r broses o ddiogelu, gwarchod a chyflwyno henebion. Roeddem o'r farn fod hyn yn arbennig o briodol, o gofio pwysigrwydd diwydiant yn natblygiad economaidd a chymdeithasol Cymru fel cenedl. Mae adroddiad o'n trafodaethau a'n hargymhellion ar gyfer blaenoriaethau'r dyfodol yn y maes hwn yn dilyn. Yn arbennig, hoffem ganolbwyntio ar yr angen am bartneriaethau effeithiol gydag ystod o sefydliadau i ddiogelu'r safleoedd hyn gan y bydd llawer ohonynt yn dirywio ymhellach heb weithredu i'w gwarchod. Gobeithiwn y bydd y Cynulliad yn cyhoeddi'r adroddiad hwn yn eang gan dynnu sylw at dynged yr adeiladau diwydiannol a'r angen am weithredu amserol a chydlynol.

Yn 2000–01, prif thema'r Bwrdd fydd gwarchod cerrig arysgrifedig a cherfluniaeth cerrig y canoloesoedd cynnar ac mae'n edrych ymlaen at eich cyngori ar y mater hwn, yn ogystal â rhoi cyngor mwy cyffredinol ar bolisi.

Yn olaf, mae dau o'r aelodau sef Mrs Frances Lynch Llewellyn a'r Athro Bill Manning, wedi ymadael â'r Bwrdd ar ôl ei gyfarfod ym mis Rhagfyr ac roeddent, ill dau, wedi rhoi dros 10 mlynedd o wasanaeth. Hoffwn fynegi fy niolech am eu cyfraniad gwerthfawr iawn at waith y Bwrdd dros y blynyddoedd a chynnig fy nymuniadau gorau at y dyfodol.

**Rees Davies**  
Cadeirydd

organizations involved in the historic environment, in its broadest sense.

For 1999–2000 and future years, in addition to its general advice, the Board decided to focus on a particular annual theme. The first of these examines the protection, conservation and presentation of industrial monuments. We considered that this was particularly appropriate, given the importance of industry in the economic and social development of Wales as a nation. A report of our discussions and recommendations for future priorities in this area follows. We should like to emphasize particularly the need for effective partnerships involving a range of organizations to safeguard these sites, many of which, without active conservation, will fall further into decay. We hope that the Assembly will publish this report widely, drawing attention to the plight of industrial structures and the need for timely and co-ordinated action.

In 2000–01 the Board will adopt as its main theme the preservation of early medieval inscribed stones and stone sculptures and looks forward to advising you on this issue, in addition to more general policy advice.

Finally, our longest serving members, Mrs Frances Lynch Llewellyn and Professor Bill Manning, left the Board after its December meeting, each having served more than ten years. I should like to convey my thanks for their much valued contribution to the work of the Board over the years and to offer my best wishes for the future.

**Rees Davies**  
Chairman

*Gweithfeydd  
Haearn Cyfarthfa,  
Merthyr Tudful.*

*Cyfarthfa  
Ironworks,  
Merthyr Tydfil.*



CYNNWYS

CONTENTS

Diogelu ein Hetifeddiaeth Ddiwydiannol	6	Protecting our Industrial Heritage	7
Crynodeb Gweithredol	6	Executive Summary	7
Cofrestru	10	Scheduling	10
Gwarchod a Chyflwyno	12	Conservation and Presentation	12
Buddiannau'r Gymuned	14	Community Interests	14
Adnoddau	16	Resources	16
Defnyddiau Newydd	17	New Uses	17
Crynodeb	18	Summary	18
Materion Eraill a Ystyriwyd gan y Bwrdd	19	Other Issues Considered by the Board	19
Crynodeb o'r Argymhellion	19	Summary Recommendations	19
Rhaglen yr Ymddiriedolaethau		Archaeological Trusts' Programme	
Archeolegol 1999–2000	19	1999–2000	19
Gwarchod a Datblygu Henebion		Conservation and Development of	
Sydd mewn Gofal	21	Monuments in Care	21
Cofrestru ac Ail-gofrestru	21	Scheduling and Rescheduling	21
Cynlluniau at y Dyfodol	23	Future Plans	23
Casgliadau	23	Conclusion	23
Atodiad A:		Annex A:	
Cyfarfodydd ac Aelodaeth	24	Meetings and Membership	24
Costau	25	Costs	25
Atodiad B:		Annex B:	
Rôl a Chyfeiriad y Bwrdd at		Role and Future Direction	
y Dyfodol	26	of the Board	26
Amcanion y Bwrdd Henebion	30	Objectives of the Ancient	
		Monuments Board	30

## DIOGELU EIN HETIFEDDIAETH DDIWYDIANNOL

### Crynodeb Gweithredol

1. Mae'r etifeddiaeth ddiwydiannol yn berthnasol iawn i Gymru ac mae iddi le arbennig ochr yn ochr â henebion o gyfnodau cynt. Mae gweddillion diwydiannol yn aml o dan fygythiad sylweddol.
2. Mae safleoedd diwydiannol yn codi problemau arbennig oherwydd y pwysau i ddatblygu, yr argraff eu bod yn ddolur i'r llygad a'r anallu i werthfawrogi eu potensial fel asedau etifeddiaeth. Dylai Cadw fod yn effro i ba rai o'r adeileddau diwydiannol presennol a all fod mewn perygl.
3. Gwelir yr etifeddiaeth ddiwydiannol yn fwyfwy pwysig yn ddiwylliannol ac yn meddu ar botensial fel grym cadarnhaol ar gyfer adfywio ardaloedd.
4. Mae rhan hanfodol gan Cadw i'w chwarae wrth gofrestru henebion o bwysigrwydd cenedlaethol. Dylai barhau i geisio diogelu adeileddau diwydiannol yn statudol fesul diwydiant, gan roi pwys yn y dyfodol agos ar gofrestru gweddillion cloddio mwyn haearn, y diwydiannau clai a'r deunyddiau gwrthsafol, calch a llechi, ynghyd â'r dociau, y porthladdoedd a'r systemau cludo.
5. Ni all cofrestru ynddo'i hun sicrhau y gwarchodir heneb ddiwydiannol yn y tymor hir. Heb weithredu i warchod llawer o'r adeileddau diwydiannol, byddant yn dirywio ymhellach.
6. Dylai Cadw ddatblygu strategaeth ar gyfer cymorth ariannol – i ganolbwyntio ar henebion unigryw a phwysig diwydiannau neilltuol, yn arbennig y rhai sydd mewn perygl, a darparu digon o hyblygrwydd i hyrwyddo ac annog mentrau unigol.
7. Mae'n hanfodol datblygu partneriaethau sy'n cynnwys ystod o sefydliadau, gan gynnwys Cadw, Cronfa Treftadaeth y Loteri, Awdurdod Datblygu Cymru, awdurdodau lleol, ymddiriedolaethau "Groundwork" a grwpiau gwirfoddol.
8. Mae angen mentrau lleol i ddiogelu'r safleoedd hyn ar gyfer y cenedlaethau a ddél tra'n cymryd i ystyriaeth y potensial i adfywio economi'r dyfodol.



## PROTECTING OUR INDUSTRIAL HERITAGE

### **Executive Summary**

1. The industrial heritage is of particular resonance in Wales, and has an important place alongside monuments of earlier times. Industrial remains are often under considerable threat.
2. Industrial sites present particular problems because of the pressures for development, a perception that they are blots on the landscape and a failure to appreciate their potential as heritage assets. Cadw should be alert to which of today's industrial structures may be at risk.
3. Industrial heritage increasingly is being seen as important culturally and potentially as a positive force for regeneration.
4. Cadw has a vital role in scheduling monuments of national importance. It should continue to look at statutory protection for industrial structures on an industry-by-industry basis with emphasis in the near future on scheduling the remains of iron ore mining, the clay and refractory, lime and slate industries, along with docks, harbours and transportation systems.
5. Scheduling cannot, in itself, secure the long term preservation of an industrial monument. Without active conservation many industrial structures will fall into further decay.
6. Cadw should develop a strategy for financial aid — to concentrate on the most distinctive and important monuments of particular industries, especially those at risk, and provide sufficient flexibility to promote and encourage individual initiatives.
7. It is essential that partnerships are developed involving a range of organizations, including Cadw, the Heritage Lottery Fund, the Welsh Development Agency, local authorities, groundwork trusts, and volunteer groups.
8. Initiatives are needed at the local level to safeguard these sites for future generations while taking account of the potential for future economic regeneration.

## DIOGELU EIN HETIFEDDIAETH DDIWYDIANNOL

Penderfynodd y Bwrdd y dylai ddatblygu dull mwy strategol o weithredu gan fabwysiadu thema flynyddol. Mewn cydnabyddiaeth o bwysigrwydd etifeddiaeth ddiwydiannol Cymru a'r bygythiadau neilltuol i'w gwarchod at y dyfodol, dewisodd y Bwrdd ganolbwytio'n gyntaf ar ddiogelu, gwarchod a chyflwyno henebion diwydiannol yng Nghymru. Roedd y thema hon yn arbennig o briodol yn y flwyddyn pan enwebodd Llywodraeth y DU Dirwedd Ddiwydiannol Blaenafan ar gyfer ei chynnwys ar Restr Etifeddiaeth y Byd. Hefyd, roedd Blaenafan yn un o saith tirwedd ddiwydiannol sydd ar y *Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru* a gyhoeddwyd ar y cyd rhwng Cadw/CCW/ICOMOS ym mis Ionawr 1998.

Mae gwarchod ein hetifeddiaeth ddiwydiannol yn bwysig. Bu'r glofeydd a'r gweithfeydd haearn, y cloddfeydd metal a'r chwareli llechi a oedd yn gysylltiedig â'r Chwyldro Diwydiannol yng Nghymru o arwyddocâd rhyngwladol eithriadol am dros 150 mlynedd a buont yn sbardun i ddatblygu economaidd a chymdeithasol. Mae mwy a mwy o frys yn yr angen i warchod henebion y Chwyldro Diwydiannol wrth i gyflwr llawer o'r safleoedd a'r adeiladau ddirywio. Ystyriai'r Bwrdd fod diogelu, gwarchod a chyflwyno'r safleoedd hyn yn codi materion eang a chymhleth. Edrychom yn fanwl ar yr amrywiol problemau a gyflwynwyd a'r atebion gwahanol a gafwyd.

Yn ystod ei daith haf, ymwelodd y Bwrdd â deg safle diwydiannol yng Nghymoedd y De a chyfarfu â chynrychiolwyr nifer

## PROTECTING OUR INDUSTRIAL HERITAGE

The Board decided it should develop a more strategic approach with the adoption of an annual theme. In recognition of the importance of the industrial heritage of Wales, and the particular threats to its preservation, the Board chose first to focus on the protection, conservation and presentation of industrial monuments in Wales. This theme was particularly appropriate in the year when the UK Government nominated the Blaenavon Industrial Landscape for inscription on the World Heritage List. Blaenavon was also one of seven industrial landscapes on the joint Cadw/CCW/ICOMOS *Register of Landscapes of Outstanding Historic Interest in Wales*, published in January 1998.

Conservation of our industrial heritage is important. The collieries and ironworks, metal mines and slate quarries associated with the Industrial Revolution in Wales were of outstanding international significance for over 150 years and were engines of economic and social development. The need for conservation of the monuments of the Industrial Revolution has become all the more pressing as the condition of many sites and buildings deteriorates. The Board considered that the protection, conservation and presentation of these sites raised widespread and complex issues. We looked in detail at the various problems presented and the different solutions reached.

During its summer tour the Board visited ten industrial sites across the south Wales valleys and met representatives of a



*Hetty Pit, Rhondda Cynon Taf; y tŷ peiriannau.*


*Hetty Pit, Rhondda Cynon Taf; the engine house.*

o sefydliadau, o awdurdodau lleol i grwpiau gwirfoddol lleol, sy'n gwneud y gwaith o gynnal a gwarchod henebion diwydiannol. Hefyd, ystyriom bapurau gan Cadw ar ei ddull o ddiogelu safleoedd diwydiannol yn statudol a'r modd y'u cynhelir yn barhaus, yn arbennig felly o ganlyniad i gymorth grantiau. Roeddem eisoes yn ymwybodol o strategaeth fras Cadw o ran diogelu henebion ac roeddem wedi gwneud sylwadau yn ddiweddar ar ei ddatganiad drafft a luniwyd ar y cyd â Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru, sef *Cofnodi, Gwarchod a Chyflwyno Tirwedd Archeolegol Cymru*.

number of organizations, from local authorities to local voluntary groups, engaged in the conservation and maintenance of industrial monuments. We also considered papers from Cadw on its approach towards the statutory protection of industrial sites and their continuing conservation, particularly as a result of grant aid. We were already aware of Cadw's broad strategy towards protecting ancient monuments and had recently commented on its draft joint statement with the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales, *Recording, Preserving and Presenting the Welsh Archaeological Landscape*.

*Gweithfeydd Haearn  
Blaenafan, Tor-faen,  
yn 1798.*

*Blaenavon  
Ironworks,  
Torfaen, in 1798.*



### **Cofrestru**

Nodwyd fod tua 96 safle diwydiannol wedi'u cofrestru gan Cadw fel henebion erbyn 1990, ond gwnaed hynny yn ad hoc. Yn 1990, penododd Cadw Arolygydd Diwydiannol arbenigol ar gyfer Henebion ac Adeiladau Hanesyddol a mabwysiadwyd dull mwy systematig o weithredu a oedd yn canolbwyntio ar ddiwydiannau neilltuol, sef y diwydiant glo yn y lle cyntaf, adeg cau'r glofeydd. Rhoddwyd sylw da i'r diwydiant haearn, yn arbennig o ran nodweddion o'r henebion megis fwrneisi chwyth, ond, yn y blynyddoedd diweddar, ymestynnwyd y meysydd a gofrestrwyd a chofrestrwyd henebion eraill er mwyn cynnwys agweddau pwysig eraill o'r diwydiant, megis gefelliau, gweithfeydd tunplat, ffyrnau golosg ac

### **Scheduling**

We noted that by 1990 some 96 industrial sites had been scheduled by Cadw as ancient monuments but this had been done on an ad hoc basis. In 1990 Cadw appointed a specialist Industrial Inspector of Ancient Monuments and Historic Buildings and a more systematic approach was adopted, concentrating on particular industries, initially the coal industry at the time of colliery closures. There was good coverage of the iron industry, especially for monumental features such as blast furnaces but, in recent years, scheduled areas had been extended and monuments newly scheduled to cover other important facets of the industry, such as forges, tinsplate works, coke ovens and ancillary structures

adeileddau ategol a oedd yn feysydd a oedd yn cael eu hegeuluso o'r blaen. Ymgymrodd Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru ag astudiaeth systematig o gloddio di-haearn a dilynwyd hyn hefyd gan y broses o gofrestru. Nid oedd y diwydiant gwehyddu ar y gofrestr, ond cafodd rhai safleoedd eu rhestru ac roedd hyn yn adlewyrchu'r defnydd parhaus a wnaed o adeileddau a oedd yn gysylltiedig â'r diwydiant hwn gynt, er bod achos dros gofrestru rhai nodweddion ategol o waith daear, megis cafnau melin.

Roeddem yn croesawu'r dull integredig a fabwysiadwyd gan Cadw o ddiogelu adeileddau diwydiannol drwy eu cofrestru a'u rhestru, gan ddefnyddio'r mecanwaith mwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau neilltuol. Nodwyd hefyd fod nifer yr henebion diwydiannol a gofrestrwyd wedi codi i 251 ac roedd hyn yn cynrychioli, yn awr, tua 8% o'r cyfanswm o henebion Cymru sydd wedi'u cofrestru. Yn y cyd-destun hwn, roedd yn bwysig nodi fod pedair i bum gwaith cymaint o safleoedd diwydiannol yn cael eu diogelu drwy eu rhestru.

Cytunodd y Bwrdd y dylai Cadw gynnal y momentwm presennol o ran cofrestru ac y dylent barhau i ystyried diogelu adeileddau diwydiannol fesul diwydiant gan roi'r pwyslais ar gofrestru gweddillion cloddio haearn, y diwydiannau clai a deunyddiau gwrthsafol, calch a llechi ynghyd â'r dociau, y porthladdoedd a systemau cludo. Fodd bynnag, byddai angen cymryd i ystyriaeth hynt rhaglen ail-arolygu rhestrïadau Cadw a byddai'n rhaid cydlynu'r dull thematig hwn o gofrestru â'r rhaglen honno.

Hefyd, cydnabu'r Bwrdd fod safleoedd diwydiannol yn codi problemau arbennig

which were formerly neglected areas. A systematic study of non-ferrous mining undertaken by the Welsh Archaeological Trusts had also been followed by scheduling. The textile industry was not represented on the schedule but sites were listed, reflecting continuing use of structures formerly associated with this industry, although there was a case for scheduling some subsidiary earthwork features, such as mill races.

We welcomed the integrated approach adopted by Cadw towards the protection of industrial structures through both scheduling and listing, employing the most appropriate mechanism for particular circumstances. We also noted that the number of scheduled industrial monuments had increased to 251, and now represented about 8% of the total number of scheduled ancient monuments in Wales. In this context, it was important to note that some four to five times as many industrial sites were protected through listing.

The Board agreed that Cadw should maintain the present momentum of scheduling, continuing to look at the protection of industrial structures on an industry-by-industry basis with emphasis on scheduling the remains of iron ore mining, the clay and refractory, lime and slate industries, along with docks, harbours and transportation systems. The timing of this work would, however, need to take account of progress on Cadw's listing resurvey programme with which this thematic approach to scheduling needs to be co-ordinated.

The Board also recognized that industrial sites present particular problems due to the

*Gweithfeydd  
Haearn Ton-du.*

*Tondu Ironworks.*



oherwydd y gwerth isel sydd weithiau'n cael ei roi i'r adeileddau. Argymhellwn fod Cadw yn parhau i fabwysiadu dull 'gweledigaethol' o weithredu gan glustnodi pa rai o'r gweddillion a esgeuluswyd neu hyd yn oed yr adeileddau diwydiannol gweithredol heddiw fydd yn etifeddiaeth werthfawr yfory.

### **Gwarchod a Chyflwyno**

Ar ein hymweliadau â'r safleoedd, gallem weld enghreifftiau penodol o'r problemau hyn a'r dulliau gwahanol o weithredu a ddefnyddir i ymateb iddynt. Ar un pen i'r ysgol, gwelwyd beth y gellid ei gyflawni pan

low value sometimes attached to the structures. We recommend that Cadw continues to adopt a 'visionary' approach, recognizing which of today's neglected remains or even active industrial structures will become tomorrow's valued heritage.

### **Conservation and Presentation**

On our site visits we were able to see specific examples of these problems and the different approaches being taken to address them. At one end of the scale, we saw what could be achieved when a monument, like

fo heneb, fel Gweithfeydd Haearn Blaenafan, yn dod o dan ofal y wladwriaeth gyda'r fantais o arbenigedd Cadw mewn gwaith maen a pheirianneg adeiladu medrus. Hefyd, gwelwyd mantais fawr lle'r oedd awdurdod lleol yn frwdfrydig, megis Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen, a oedd yn arwain yr ymdrechion i gael Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafan wedi'i henwebu yn Safle Etifeddiaeth y Byd, nid yn lleiaf fel sbardun i adfywiad economaidd yr ardal a'r modd cyfnewidiol o edrych ar etifeddiaeth ddiwydiannol Cymru sydd o arwyddocâd rhyngwladol.

Ar ben arall yr ysgol, gwelwyd yn nhŷ peiriannau Hetty Pitt yr hyn y gellid ei gyflawni gan bobl wirfoddol brwdfrydig sy'n llawn cymhelliant. Roedd Big Pit a Pharc Treftadaeth y Rhondda yn enghreifftiau da o'r modd y gellid gwarchod safleoedd mawr yn y tymor hir drwy eu hagor fel atyniadau i ymwelwyr, er bod cyfyngiad clir ar y nifer o safleoedd y gall y farchnad dwristiaeth ymdopi â hwy. Hefyd, gwelwyd yng ngweithfeydd haearn Sirhywi, Merthyr a Thon-du yr hyn y gellir ei gyflawni i warchod henebion, fel y'u darganfyddir, er defnydd lleol gyda grantiau gan Cadw, Cronfa Treftadaeth y Loteri a rhai eraill. Ar y llaw arall, y dull a gynigiwyd gan Ymddiriedolaeth Phoenix ar gyfer y tŷ peiriannau enfawr yn hen Lofa Penallta oedd addasu'r adeiladau at ddefnydd y trigolion – her fawr, mae'n amlwg, yn y sefyllfa hon.

Er bod croeso i'r gwahanol ddulliau hyn o weithredu, roeddem yn ymwybodol fod yr adeileddau hyn yn eithriadol. Roedd nifer fwy o henebion diwydiannol pwysig lle nad oedd unrhyw ateb ymarferol i'r broblem wedi'i roi ar waith fel eu bod yn cael eu gwarchod yn y tymor hir. Cawsom gipolwg ar y broblem

the Blaenavon Ironworks, is taken into state care with the benefit of Cadw's expertise in masonry consolidation and skilled structural engineering. We also saw the very real benefit of an enthusiastic local authority, such as Torfaen County Borough Council, which was leading the efforts to have the Blaenavon Industrial Landscape nominated as a World Heritage Site, not least as a catalyst towards the economic regeneration of the area and changing perceptions of the internationally significant industrial heritage of Wales.

At the other end of the scale, we saw at the Hetty Pit engine house just what could be achieved by highly motivated voluntary enthusiasts. Big Pit and the Rhondda Heritage Park were good examples of the way in which the long term preservation of major sites could be achieved through opening them up as tourist attractions, although there is clearly a limit on how many sites the tourist market can cope with. We also saw at Sirhowy, Merthyr, and Tondy Ironworks what can be achieved to preserve monuments, as found, for local amenity use with grants from Cadw, the Heritage Lottery Fund (HLF) and others. In contrast, the approach proposed by the Phoenix Trust for the huge engine house at the former Penallta Colliery was to adapt the buildings for residential use — clearly a major challenge in this situation.

Although these different approaches are welcome, we were aware that these structures were exceptional. There was a greater number of important industrial monuments where no practical solution had been implemented to secure their long-term preservation. We obtained a flavour of this

hon yn Ffwrneisi Cyfartha, Merthyr Tudful, lle'r oedd yr adeileddau â thyfiant mawr o'u hamgylch ac mewn cyflwr simsan. Ar ôl cyfnod cychwynnol hir yn llawn problemau, roeddem yn falch o ddeall fod rhaglen o waith gwarchod ar y gweill. Daethom i wybod am safleoedd eraill a oedd yr un mor bwysig, megis Peiriannau Trostlath Glyn Pits a Gweithfeydd Haearn Abaty Castell-nedd lle nad oedd yr un rhaglen wedi'i rhoi yn ei lle hyd yn hyn i atal y dirywiad. Roedd yn glir i ni nad oedd unrhyw atebion hawdd i warchod adeileddau diwydiannol sydd o bwysigrwydd hanesyddol ac mae llawer ohonynt yn awr wedi dirywio i raddau tyngedfennol. Ni all cofrestru ynddo'i hun sicrhau y gwarchodir heneb diwydiannol yn y tymor hir. Heb ymgais i weithredu o blaid llawer o'r adeileddau diwydiannol, byddant yn dirywio hyd yn oed ymhellach. Rhaid cydnabod, os na wneir dim byd arall, mai dyma fydd tynged anochel rhai o'r adeileddau hyn a byddant yn adfeilio ar ein tirwedd. Yn y fath amgylchiadau, mae'n arbennig o bwysig fod Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru, grwpiau gwirfoddol a phobl frwdfrydig eraill yn ymdrechu i gofnodi'r safleoedd hyn.

### **Buddiannau'r Gymuned**

Mae agwedd y cyhoedd hefyd yn ffactor bwysig, yn arbennig agwedd cymunedau ac awdurdodau lleol mewn ardaloedd lle y mae diwydiannau wedi cau'n ddiweddar. Weithiau, mae'n anodd darbwyllo pobl leol ynghylch troi gweithle ddoe yn amgueddfa, adnoddau addysgol neu heneb yfory, yn arbennig lle y mae ei gau wedi bod yn broses ddolurus neu lle y mae cymunedau am weld tystiolaeth o'r hen

problem at the Cyfarthfa Furnaces, Merthyr Tydfil, where the structures were heavily overgrown and, in places, in a precarious state, and were pleased to learn that, after a long and problematic incubation period, a programme of conservation works was being put in place. We learned of other equally important sites, such as the Glyn Pits Beam Engines and Neath Abbey Ironworks where no programme had yet been instigated to halt their decline. It was clear to us that there were no easy answers to the preservation of historically important industrial structures, many of which are now at a crucial point of decay. Scheduling cannot, in itself, secure the long-term preservation of an industrial monument. Without active conservation many industrial structures will fall into further decay. We have to recognize that, failing all else, this will be the inevitable fate for some of these structures and they will become ruins in the landscape. In such circumstances, it is particularly important that effort is put into recording these sites by the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales, the Welsh Archaeological Trusts, voluntary groups and other local enthusiasts.

### **Community Interests**

Public perception is also an important factor, particularly the attitude of communities and local authorities in areas where industries have recently closed. It is sometimes difficult to convince local people of the value of turning yesterday's workplace into tomorrow's museum, educational resource, or ancient monument, particularly where closure has been a painful process or where





*Gweithfeydd Haearn Sirhowy.*

*Sirhowy Ironworks.*

ddiwydiannau'n diflannu. Gall y pwysau i adennill tir i greu gwaith at y dyfodol hefyd fod yn fygythiad. Fel y gwelwyd ym Merthyr Tudful, gellir colli neu wneud niwed i ardal eang o dirwedd hanesyddol drwy'r broses hon. Mae hyn yn ddealladwy mewn ardaloedd lle y collwyd diwydiannau a fu yn gynt yn bwysig a bod hynny'n arwain at amddifadedd economaidd. Ond gall yr argraff mai gwerth cyfyng sydd i safleoedd diwydiannol fod yn un dros dro — mae Blaenafan yn enghraifft dda o etifeddiaeth ddiwydiannol ardal, a

communities want to see evidence of former industries swept away. The pressures of land reclamation to provide opportunities for future employment, can also pose a great threat. As we saw at Merthyr Tydfil, large areas of historic landscape can be damaged or lost through this process. This is understandable in areas where formerly important industries have been lost, leading to economic deprivation. But the perception that industrial sites have a limited value may be temporary — Blaenavon presents a good

*Pont y Dramffordd,  
Pontycafnau,  
Merthyr Tudful.*

*Pontycafnau  
Tramroad Bridge,  
Merthyr Tydfil.*



oedd yn cael ei dibrisio ar un adeg, ond sydd bellach yn bwysig yn ddiwylliannol ac sydd â'r potensial i fod â'r nerth i adfywio'r ardal.

### **Adnoddau**

O ystyried maint etifeddiaeth ddiwydiannol Cymru a'r costau uchel iawn sydd yn aml ynghlwm wrth gynlluniau gwarchod, mae'n rhaid dethol wrth ganolbwyntio ymdrechion ar gadwraeth. Cydnabyddir fod swyddogaethau Cadw wedi'u cyfyngu i'r fframwaith statudol lle y mae'n rhaid iddo weithredu ac na all Cadw wrtho'i hun greu fframwaith hollgynhwysol i ddiogelu adeileddau diwydiannol. Er hynny, erfyniwn ar Cadw i ddatblygu strategaeth ar gyfer ei raglen o gymorth grantiau at y dyfodol ac, i raddau llai, o ran ei ymateb i geisiadau am

example of an area's industrial heritage, once discounted, now being seen as important culturally and potentially as a positive force for regeneration.

### **Resources**

Given the scale of the industrial heritage of Wales and the often very high costs involved in conservation schemes, concentrating effort on preservation must involve selection. We recognize that Cadw's remit is limited to the statutory framework within which it has to operate and that Cadw alone cannot create an all-embracing framework for the protection of industrial structures. Nevertheless, we urge Cadw to develop a strategy for its future programme of grant-aid and, to a lesser degree, towards its response to applications

ganiatâd henebion cofrestredig a gwneud gwaith ar henebion diwydiannol. Mae angen i hyn ganolbwyntio ar yr henebion mwyaf unigryw a phwysig mewn diwydiannau neilltuol, yn arbennig y rhai sydd mewn perygl. Ond rhaid iddo hefyd fod yn ddigon hyblyg i hyrwyddo a chychwyn cynlluniau ynghyd â manteisio ar gyfleoedd a grewyd gan eraill ac ymgorffori'r math ar fenter unigol a welwyd yn Hetty Pit.

Ni ellir cymryd yn ganiataol y bydd arian cyhoeddus ar gyfer cadw gweddillion diwydiannol yn cynyddu, er bod grantiau Cronfa Treftadaeth y Loteri wedi gwneud cyfraniad sylweddol i rai o'r prosiectau gwarchod a chyflwyno mwyaf. Weithiau, bydd gan y sefydliadau hyn amcanion ehangach yn y tymor hir fel y gwelwyd yng Ngweithfeydd Haearn Ton-du ger Pen-y-Bont, lle yr oedd cadw gweddillion diwydiannol yn rhan o amcan ehangach i greu parc gwledig. Yng Ngweithfeydd Haearn Stepside yn Sir Benfro, roedd gwarchod y gweddillion diwydiannol yn rhan o gynllun adfer tir Awdurdod Datblygu Cymru. Daethom i'r casgliad ei bod yn hanfodol datblygu partneriaethau sy'n cynnwys ystod o sefydliadau, megis Cadw, Cronfa Treftadaeth y Loteri, Awdurdod Datblygu Cymru, awdurdodau lleol, ymddiriedolaethau 'groundwork' a grwpiau gwirfoddol.

### Defnyddiau Newydd

Credwn y gall dod o hyd i ddefnydd newydd ar gyfer adeileddau diwydiannol fod, mewn achosion priodol, yn un o'r atebion gorau i'w dyfodol hir-dymor ac mae enghreifftiau o hyn mewn sawl ardal o Gymru, mewn mannau eraill ym Mhrydain ac, yn arbennig felly, yn yr Almaen. Fel y gwelwyd ym

for scheduled monument consent to carry out works on industrial monuments. This needs to concentrate on the most distinctive and important monuments of particular industries, especially those at risk. But it must also be sufficiently flexible to promote and initiate schemes, as well as to capitalize on opportunities created by others and accommodate the sort of individual initiative we saw at Hetty Pit.

There is no guarantee that public funding for the conservation of industrial remains will increase, although grants from the HLF have made a significant contribution to some of the larger conservation and presentation projects. Sometimes these organizations will have wider long-term objectives, as we saw at Tondu Ironworks near Bridgend, where the conservation of the industrial remains formed part of a wider objective to create a country park. At Stepside Ironworks in Pembrokeshire preservation of the industrial remains formed part of a Welsh Development Agency (WDA) land reclamation scheme. We conclude that it is essential that partnerships are developed involving a range of organizations, such as Cadw, the HLF, the WDA, local authorities, groundwork trusts, and volunteer groups.

### New Uses

We believe that finding a new use for industrial structures can provide, in appropriate cases, one of the best solutions towards their long-term future and there are examples of this in several areas of Wales, elsewhere in Britain and, in particular, in Germany. As we saw at

Mhenallta, efallai y bydd yn rhaid cael mentrau beiddgar a chloriannu'n ofalus y cyfaddawdau a allai fod ynghlwm wrth hyn wrth bwysu a mesur y fantais o ddod o hyd i ddefnydd parhaol yn erbyn yr angen i gadw'r nodweddion allweddol.

Mae llefydd fel Gweithdai Chwarel Dinorwig (sef yr Amgueddfa Lechi), Big Pit a Pharc Treftadaeth y Rhondda wedi dod yn atyniadau twristaidd sy'n gwarchod henebion drwy eu cyflwyno. Fodd bynnag, mae angen gofal i osgoi trwytho'r farchnad a allai, yn ei dro, effeithio ar sicrhau bod yr atyniadau presennol yn gynaliadwy. Mae cryn her o'n blaenau wrth ymdopi ag adeileddau diwydiannol mawr, megis ffwrnais mewn gweithfeydd dur neu orsaf bŵer oedrannus.

### **Crynodeb**

Yn gryno, mae'n hanfodol bwysig ein bod yn diogelu'r enghreifftiau gorau o'n hetfeddiaeth ddiwydiannol. Mae'n berthnasol iawn i Gymru ac mae lle pwysig iddo ochr yn ochr â henebion o gyfnodau cynt. Fodd bynnag, mae gweddillion diwydiannol yn aml o dan fygythiad enfawr, nid yn lleiaf oherwydd y pwysau sydd ar adfywio economaidd a'r gydnabyddiaeth amrywiol sydd o'r etifeddiaeth hon fel ased. Mae rhan hanfodol gan Cadw i'w chwarae wrth glustnodi safleoedd pwysig a rhoi'r rhai sydd o bwysigrwydd cenedlaethol ar y Gofrestr Henebion. Ond, ni all Cadw warchod pob un o'r adeileddau hyn ar ei ben ei hun. Mae angen mentrau yn lleol i geisio diogelu'r safleoedd hyn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, ac, ar yr un pryd, yn cymryd i ystyriaeth y potensial i adfywio'r economi yn y dyfodol.

Penallta, this may require bold initiatives and thoughtful evaluation of the compromises that might be involved in balancing the advantage of finding a continuing use against the need to retain key features.

Sites like the Dinorwic Quarry Workshops (now the Museum of Slate), Big Pit and the Rhondda Heritage Park have become tourist attractions providing preservation through presentation. However, care needs to be taken to avoid market saturation which, in turn, might affect the sustainability of existing attractions. A real challenge lies ahead in coping with major industrial structures on the scale of a furnace at a steelworks or an aged power station.

### **Summary**

In summary, it is vitally important that we protect the best examples of our industrial heritage. It is of particular resonance in Wales and has an important place alongside monuments of earlier times. However, industrial remains are often under considerable threat, not least from the pressures of economic regeneration and the variable recognition of this heritage as an asset. Cadw has a vital role to play in identifying important sites and placing those of national importance on the Schedule of Ancient Monuments. But Cadw, on its own, cannot preserve all these structures. Initiatives are needed at the local level to look to safeguard these sites for future generations while, at the same time, taking into account the potential for future economic regeneration.

MATERION ERAILL A YSTYRIWYD  
GAN Y BWRDD

**Crynodeb o'r Argymhellion**

- Dylai Cadw roi mwy o flaenoriaeth i gynnwys caerau Rhufeinig ac aneddiadau cysylltiedig ar y gofrestr henebion.
- Dylai Cadw annog awdurdodau lleol i wneud cyfraniadau ariannol i Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru ar gyfer cael eu cymorth wrth gyflawni eu dyletswyddau statudol fel awdurdodau cynllunio.

RHAGLEN YR YMDDIRIEDOLAETHAU  
ARCHEOLEGOL 1999–2000

Yn ystod y flwyddyn, buom yn adolygu'r gwaith sy'n derbyn cymorth grantiau gan Cadw a gyflawnwyd gan bedair Ymddiriedolaeth Archeolegol Cymru yn ystod y flwyddyn. Hefyd, buom yn ystyried amlinelliad o'r prif themâu a'r blaenoriaethau arfaethedig ar gyfer gwaith a dderbyniodd gymorth grant yn 2000–01, yn seiliedig ar yr agenda a amlinellwyd yn y datganiad ar y cyd rhwng Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Gwnaeth y Bwrdd sylwadau ar hyn yn 1998–99.

Roeddem yn cefnogi cyfeiriad arfaethedig y rhaglen. Fodd bynnag, roeddem yn pryderu rywfaint am y diffyg adnoddau i weithio ar safleoedd o'r cyfnod Rhufeinig. Rydym yn ymwybodol i'r Pwyllgor Materion Cymreig ddod i'r casgliad yn 1993 na ddylai hyn fod yn flaenoriaeth yn rhaglen gofrestru Cadw ac y dylai'r canolbwynt yn hytrach fod ar

OTHER ISSUES CONSIDERED  
BY THE BOARD

**Summary Recommendations**

- Cadw should give more priority to including Roman forts and associated settlements on the schedule of ancient monuments.
- Cadw should encourage local authorities to make financial contributions to the Welsh Archaeological Trusts for their assistance in fulfilling their statutory duties as planning authorities.

ARCHAEOLOGICAL TRUSTS'  
PROGRAMME 1999–2000

We reviewed the Cadw grant-aided work undertaken by the four Welsh Archaeological Trusts during the year. We also considered in outline the proposed main themes and priorities for grant-aided work in 2000–01, based on the agenda set out in the joint statement by Cadw and the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales on which the Board had commented in 1998–99.

We endorsed the proposed direction for the programme. However, we had some concerns about lack of resources for work on sites of the Roman period. We are aware that in 1993 the Welsh Affairs Committee had concluded that this should not be a priority in Cadw's scheduling programme and that the focus should instead be on more vulnerable monument types. However, in our view, Cadw has

fathau ar henebion mwy bregus. Fodd bynnag, yn ein barn ni, mae Cadw wedi symud ymlaen rywfaint yn hyn o beth yn y cyfamser, ac yn seiliedig ar ymchwil, mae nifer y caerau Rhufeinig a'r aneddiadau cysylltiedig sydd ar y gofrestr yn is na'r disgwyl. Dim ond chwe darn o ffyrdd Rhufeinig yng Nghymru sydd wedi'u cofrestru ac mae angen i'r broses gofrestru gydgerdded â'r cynnydd yn ein dealltwriaeth am aneddiadau o bobl (*vici*) a oedd yn gysylltiedig â'r caerau Rhufeinig. Daeth hyn yn glir eleni drwy'r darganfyddiadau diweddaraf cyn y datblygiad arfaethedig ar Fferm Bulmore ger Caerllion, lle y canfyddwyd fod gweddillion y *vici* yn llawer ehangach a mwy arwyddocaol nag y barnwyd cyn hynny. Byddem yn cynghori Cadw i adolygu'r caerau Rhufeinig a'r aneddiadau cysylltiedig sydd ar ei gofrestr ac ystyried rhoi mwy o flaenoriaeth i'r gwaith hwn yn ei raglen o asesiadau ar fygythiadau.

Mae rhan fawr o waith yr Ymddiriedolaethau yn gysylltiedig â'u cyfrifoldebau curadurol, gan gynnwys rhoi cyngor ar gynllunio a dulliau eraill o reoli datblygu i'r awdurdodau lleol, ynghyd ag asiantaethau eraill a chwmnïau cyfleustodau. Er mor bwysig yw'r gwaith hwn, a'r ffaith fod y fath waith yn Lloegr yn gyfrifoldeb llawn yr awdurdodau lleol, bu rhai awdurdodau yng Nghymru yn gyndyn i wneud cyfraniad ariannol i'r agwedd hon o waith yr Ymddiriedolaethau. Argymhellwn y dylai Cadw godi'r mater â Phrif Weithredwyr yr awdurdodau lleol gan bwysleisio'r pwysau cynyddol sydd ar yr Ymddiriedolaethau a ddaw o ganlyniad i'r agwedd hon o'u gwaith ac annog yr awdurdodau i wneud cyfraniadau ariannol fel cydnabyddiaeth o bwysigrwydd y gwasanaeth hwn wrth fodloni eu goblygiadau fel awdurdodau cynllunio.

made progress on this front over the intervening years and, based on research, the number of Roman forts and associated settlements on the schedule is now disproportionately low. Only six stretches of Roman road in Wales have been scheduled and scheduling needs to keep abreast with advances in our knowledge about civilian settlements (*vici*) associated with Roman forts. This was brought into sharp relief this year by the latest discoveries ahead of proposed development at Bulmore Farm near Caerleon, where the known remains of the *vicus* were found to be far more extensive, and significant, than previously thought. We would advise Cadw to review the coverage of Roman forts and associated settlements on the schedule and to consider allocating a greater priority in its programme of threat-related assessments to this work.

A major part of the work of the Trusts relates to their curatorial responsibilities, including providing planning and other development control advice to local authorities, as well as to other agencies and utility companies. Despite the importance of this work, and the fact that in England such work is wholly the responsibility of the local authorities, some Welsh authorities have been reluctant to make any financial contribution to this aspect of the Trusts' work. We recommend that Cadw should raise the issue with local authority chief executives, emphasizing the growing pressures on the Trusts presented by this aspect of their work and encouraging authorities to make financial contributions in recognition of the importance of this service in meeting their obligations as planning authorities.

G W A R C H O D A  
D A T B L Y G U H E N E B I O N  
S Y D D M E W N G O F A L

Trafododd – a chytunodd – y Bwrdd ar raglen Cadw i warchod a datblygu henebion yn ei ofal ac adolygodd hynt yr asiantaeth yn ystod y flwyddyn. Anogwyd y Bwrdd i nodi hynt y broses o warchod gweddillion henebion yng Ngweithfeydd Haearn Blaenafan, gan gynnwys gwaith arloesol ar Ffwrnais 2, a rhaglen fawr o warchod yn Abaty Tyndyrn gan gynnwys adfer o bosibl y Sgrin Pulpitum. Hefyd, roeddem yn falch o glywed bod yr ymgyrch hir i warchod Priordy Hwlfordd wedi'i chwblhau. Roedd sawl aelod o'r Bwrdd yn falch o fynychu agoriad swyddogol y Priordy a'i erddi i'r cyhoedd ar 1 Hydref 1999.

Nodwyd y gwaith pwysig i wella pontydd dros y ffos, ffyrdd a llwybrau yng Nghastell Caerffili; gwaith gwarchod pwysig ym Mhorth Burgess ym Muriau Tref Dinbych a neuadd-dy canoloesol Hafoty ar Ynys Môn. Edrychwn ymlaen at ail-agor Amgueddfa Gerrig Margam yn dilyn ei hadnewyddu ac agoriad rhannol Castell St Quentin yn Llanfleiddan.

C O F R E S T R U A C  
A I L G O F R E S T R U

Yn 1998–99, cynigiodd y Bwrdd ei gyngor ar raglen ddrafft Cadw ar wella'r trefniadau cofrestru am y pum mlynedd ganlynol. Eleni, cafwyd cyfle i adolygu'r hyn a wnaed. Roedd yn bleser gennym nodi y cyflawnwyd 121 gweithred cofrestru, gan wneud cyfanswm o

C O N S E R V A T I O N A N D  
D E V E L O P M E N T O F  
M O N U M E N T S I N C A R E

The Board discussed — and agreed — Cadw's programme for the conservation and development of monuments in its care and reviewed the Agency's progress during the year. The Board was encouraged to note progress on the conservation of the monumental remains at Blaenavon Ironworks, including pioneering work on Furnace 2, and the major programme of conservation at Tintern Abbey including the possible restoration of the pulpitum screen. We also warmly welcomed the completion of the long-running campaign of conservation at Haverfordwest Priory. Several members of the Board were pleased to attend the official opening to the public of the Priory and its gardens on 1 October 1999.

We noted major improvement works to moat bridges, roads and tracks at Caerphilly Castle and major conservation work at the Burgess Gate in Denbigh's town walls and at Hafoty medieval hall-house on Anglesey. We look forward to the reopening of the Margam Stones Museum following refurbishment and the partial opening of St Quentin's Castle at Llanblethian.

S C H E D U L I N G A N D  
R E S C H E D U L I N G

In 1998–99 the Board offered its advice on Cadw's draft scheduling enhancement programme for the following five years. This year we were able to review the progress being made. We were pleased to note that 121 scheduling actions were



*Priordy Hwlfordd, Sir Benfro.*

*Haverfordwest Priory,  
Pembrokeshire.*



heneb cofrestredig yng Nghymru. Yn ogystal â chofrestru'r henebion diwydiannol y cyfeiriwyd atynt eisoes yn yr adroddiad hwn, roedd y cynnydd yn yr aneddiadau gwledig anghyfannedd a'r safleoedd a glustnodwyd fel rhan o Fenter Ucheldiroedd y Comisiwn Brenhinol yn arbennig o nodedig. Hefyd, roeddem yn croesawu'r nifer fawr o henebion a gofrestrwyd o ganlyniad i Arolwg Asedau Treftadaeth Cymru gan y Fenter Coedwigaeth. Mae cymaint o goedwigaeth yng Nghymru nes y bydd dros 7% o'r wlad wedi'i harchwilio ar gyfer ei chofrestru erbyn diwedd yr ymarferiad. Hoffai'r Bwrdd ganmol y Comisiwn Coedwigaeth am y gwaith gwerthfawr hwn.

carried out, making a total of 3,267 scheduled ancient monuments in Wales. In addition to the scheduling of industrial monuments referred to earlier in this report, the increased coverage of deserted rural settlements and sites identified as part of the Royal Commission's Uplands Initiative was particularly notable. We also welcomed the large numbers of new monuments scheduled as a result of the Forest Enterprise Welsh Heritage Assets Survey. Such is the scale of forestry in Wales, that over 7% of the country will have been examined for scheduling by the end of the exercise. The Board would like to commend the Forestry Commission on this valuable work.

#### CYNLLUNIAU AT Y DYFODOL

Yn ystod y flwyddyn 2000–01, themaf'r Bwrdd fydd diogelu, gwarchod a chyflwyno cerrig arysgrifedig a cherfluniaeth gerrig y canoloesoedd cynnar yng Nghymru.

#### FUTURE PLANS

During the year 2000–01 the Board will adopt as its theme the protection, conservation and presentation of the early medieval inscribed stones and stone sculpture of Wales.

#### CASGLIADAU

Mae'r adroddiad hwn wedi amlygu rhai o'r prif faterion y bu'r Bwrdd yn eu harchwilio yn ystod y flwyddyn. Yn olaf, hoffem ddiolch i'ch swyddogion yn Cadw am y papurau trafod ac am drefnu ein rhaglen o ymweliadau a oedd yn addysgiadol ac yn llawn gwybodaeth.

#### CONCLUSION

This Report has highlighted some of the salient issues which the Board examined during the course of the year. Finally, we should like to thank your officials in Cadw for the discussion papers and for organizing our informative and instructive programme of visits.

## ATODIAD A

### CYFARFODYDD AC AELODAETH

Cafodd y Bwrdd ddau gyfarfod swyddogol yn 1999–2000. Hefyd, mynychodd yr Aelodau achlysur agor Priordy Hwlfordd ar 1 Hydref 1999.

Yn unol â Chod Ymarfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Benodiadau Cyhoeddus, ar ôl blynyddoedd lawer o wasanaeth gwerthfawr i'r Bwrdd, ymddeolodd Mrs Frances Lynch Llewellyn a'r Athro Bill Manning ar ôl cyfarfod y gaeaf, gyda'r ddau wedi rhoi dau dymor o wasanaeth fel aelodau.

Roedd aelodaeth y Bwrdd yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

#### **Cadeirydd:**

Yr Athro R R Davies, CBE, FBA, MA, DPhil, FRHistS

#### **Aelodau :**

Mr R Brewer, BA, FSA

Yr Athro W Davies, FBA, BA, PhD, FSA, FRHistS

Mr M J Garner, RIBA

Yr Athro R A Griffiths, BA, PhD, D Litt, FRHistS

Mr R G Keen, MA

Mrs F M Lynch Llewellyn, MA, FSA

Yr Athro W H Manning, BSc, PhD, FSA

## ANNEX A

### MEETINGS AND MEMBERSHIP

The Board had two formal meetings in 1999–2000. Members also attended the opening of Haverfordwest Priory on 1 October 1999.

In accordance with the National Assembly for Wales's Code of Practice on Public Appointments, after many years' valuable service to the Board both Mrs Frances Lynch Llewellyn and Professor Bill Manning retired after the winter meeting having each served two terms as members.

The membership of the Board during the year was as follows:

#### **Chairman:**

Professor R R Davies, CBE, FBA, MA, DPhil, FRHistS

#### **Members:**

Mr R Brewer, BA, FSA

Professor W Davies, FBA, BA, PhD, FSA, FRHistS

Mr M J Garner, RIBA

Professor R A Griffiths, BA, PhD, D Litt, FRHistS

Mr R G Keen, MA

Mrs F M Lynch Llewellyn, MA, FSA

Professor W H Manning, BSc, PhD, FSA

Darperir Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd gan  
 Cadw: Welsh Historic Monuments ac yn  
 ystod cyfnod yr adroddiad, roedd fel a ganlyn:

**Ysgrifennydd:**

Mrs J M Booker

**Ysgrifennydd Cynorthwyol:**

Mr R W Kevern

**Asesydd Pensaerniol:**

Mr J D Hogg, RIBA, ARIAS, FSAScot

**Asesydd Archeolegol:**

Mr J R Avent, MA, FSA

The Secretariat to the Board is provided by  
 Cadw: Welsh Historic Monuments and  
 during the period of the report was:

**Secretary:**

Mrs J M Booker

**Assistant Secretary:**

Mr R W Kevern

**Architectural Assessor:**

Mr J D Hogg, RIBA, ARIAS, FSAScot

**Archaeological Assessor:**

Mr J R Avent, MA, FSA

**COSTAU**

Ni thelir y Cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd  
 am eu gwasanaeth. Roedd costau'r Bwrdd  
 yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

Treuliau ar gyfer cyfarfodydd (gan gynnwys teithio)	£3,966
--	--------

Amcangyfrif o gostau Cadw wrth gynnal y Bwrdd	£16,004
--	---------

<b>Cyfanswm</b>	<b>£19,970</b>
-----------------	----------------

**COSTS**

The Chairman and Board members are not  
 remunerated for their services. The Board's  
 costs during the year were:

Meeting expenses (including travel)	£3,966
--	--------

Estimated costs incurred by Cadw in supporting the Board	£16,004
---	---------

<b>Total</b>	<b>£19,970</b>
--------------	----------------

## ATODIAD B

### RÔL A CHYFEIRIAD Y BWRDD AT Y DYFODOL

#### Cefndir

1. Sefydlwyd Bwrdd Henebion Cymru drwy statud yn 1913 i gynghori'r Ysgrifennydd Gwladol ar y modd y mae'n cyflawni ei ddyletswyddau o dan y ddeddfwriaeth henebion, yn fwyaf diweddar Deddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979 (Deddf 1979). Amlinellir ei nodau a'i amcanion isod.

2. Mae'r Bwrdd yn cynghori'r Cynulliad Cenedlaethol ac mae'r Cynulliad yn gyfrifol am benodi'r aelodau. Mae gwybodaeth arbenigol gan yr aelodau naill ai yn gyffredinol neu mewn agwedd benodol o henebion Cymru. Ffurfir yr aelodaeth i sicrhau fod gan y Bwrdd amrywiaeth dda o arbenigedd yn y prif gyfnodau hanesyddol a'r mathau ar henebion o fewn cylch gwaith y Bwrdd. Ar hyn o bryd, mae wyth aelod, gan gynnwys y cadeirydd, ac maent oll yn benodiadau di-dâl; mae rhai aelodau yn cynrychioli sefydliadau. Bydd tri aelod wedi cwblhau eu cyfnod presennol o wasanaeth ym mis Ebrill 2000. Mae Cadeirydd y Bwrdd hefyd yn gwasanaethu ar Bwyllgor Ymgynghorol Cadw, sy'n cyfarfod yn chwarterol i adolygu perfformiad cyffredinol Cadw. Cyflwynir Adroddiad Blynyddol y Bwrdd, a arferai ddod gerbron y Senedd, i'r Cynulliad.

## ANNEX B

### ROLE AND FUTURE DIRECTION OF THE BOARD

#### Background

1. The Ancient Monuments Board for Wales was established by statute in 1913 to advise the Secretary of State on the discharge of his functions under ancient monuments legislation, most recently the Ancient Monuments and Archaeological Areas Act 1979 (1979 Act). Its aims and objectives are set out below.

2. The Board advises the National Assembly and the Assembly is responsible for members' appointments. Members have a specialist knowledge either generally or in a specific aspect of the ancient monuments of Wales. Membership is constituted to ensure that there is a good spread of expertise across the major historical periods and types of monuments within the Board's remit. Currently there are eight members, including the chairman. All appointments are unpaid; some members represent organizations. Three members will have completed their current appointments in April 2000. The Chairman of the Board also serves on the Cadw Advisory Committee, which meets quarterly to review Cadw's general performance. The Board's Annual Report, formerly laid before Parliament, is submitted to the Assembly.

## Gwaith y Bwrdd

3. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod yn swyddogol ddwywaith y flwyddyn i gael adroddiadau llawn gan swyddogion proffesiynol Cadw a thrafod materion sydd wedi'u cyfeirio at y Bwrdd neu sydd wedi'u cychwyn gan ei aelodau a chynghori ar y ffordd ymlaen. Hefyd, mae'n ymweld â nifer o safleoedd, yn gyffredinol â henebion dan ofal Cadw neu ofal awdurdodau lleol i adolygu gwaith sydd ar droed ac ystyried problemau a allai fod wedi codi o ran cyfnerthu, cyflwyno a chynnal henebion.

4. Mae'r Bwrdd yn trafod ac yn rhoi cyngor i Cadw ar feysydd o flaenoriaeth ar gyfer cofrestru henebion dros y pum mlynedd nesaf a'r rhaglen ar gyfer arbed archeoleg yr ymgwymerir â hi gan bedair Ymddiriedolaeth Archeolegol Cymru. Mae hefyd yn cynghori ar faterion polisi anodd (megis cynnig i doi Palas yr Esgob, Tyddewi) ac ymgynghorir â'i aelodau y tu allan i'r cyfarfodydd swyddogol ar faterion ad hoc pynciol sy'n codi yn ystod y flwyddyn (gan gynnwys cyhoeddiadau Cadw). Gan gydweithio â swyddogion Cadw, mae'r Bwrdd wedi helpu i ddiogelu agweddau pwysig o etifeddiaeth Cymru a chynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o faterion sydd o bwysigrwydd archeolegol. Daeth adolygiad o'r Bwrdd gan y Swyddfa Gymreig yn 1997 i'r casgliad ei fod yn rhoi cyngor gwerthfawr ac adeiladol i'r Ysgrifennydd Gwladol a bod iddo ran ymgynghorol bwysig i'w chwarae wrth ddiogelu etifeddiaeth Cymru. Daeth yr adolygiad hefyd i'r casgliad mai'r Bwrdd oedd y dull mwyaf effeithlon a mwyaf cost effeithiol o roi'r cyngor hwn.

## Work of the Board

3. The Board meets formally twice a year to receive full reports from Cadw's professional officers and to discuss issues referred to the Board or initiated by its members, and to advise on the way forward. It also carries out a number of site visits, generally to monuments in Cadw or local authority care, to review work in progress and to consider problems that may have arisen in monument consolidation, presentation or maintenance.

4. The Board discusses and gives advice to Cadw on priority areas for the scheduling of ancient monuments over the next five years and for the rescue archaeology programme undertaken by the four Welsh Archaeological Trusts. It also advises on difficult policy issues (such as a proposal for roofing the Bishop's Palace, St Davids) and its members are consulted outside of formal meetings on ad hoc topical issues arising during the year (including Cadw publications). Working with Cadw officers, the Board has helped to safeguard important aspects of the Welsh heritage, and to increase public awareness of issues of archaeological importance. A review of the Board by the Welsh Office in 1997 concluded that it provided valuable and constructive advice to the Secretary of State, and that it had an important advisory role in the protection of the heritage of Wales. The review also concluded that the Board represented the most efficient and cost effective means of providing this advice.

5. Ar gyfer y blynyddoedd presennol a rhai'r dyfodol, mae'r Bwrdd wedi penderfynu canolbwyntio ei brif gyfarfod haf bob blwyddyn ar agwedd arbennig o waith Cadw. Yn 1999–2000, y thema yw diogelu, gwarchod a chyflwyno henebion diwydiannol ledled Cymru. Bu cyfres o ymweliadau â safleoedd – a oedd yn rhoi darlun o'r problemau sy'n wynebu cadwraeth ddiwydiannol, a rhai o'r atebion, megis cyfraniad sefydliadau gwirfoddol ac ymddiriedolaethau – a thrafodaeth benodol yn gymorth i'r Bwrdd gynghori Cadw ar flaenoriaethau'r dyfodol yn y maes anodd hwn. Yn 2000–2001, bydd y Bwrdd yn anelu ei sylw at ofalu a gwarchod cerrig arysgrifedig a cherfluniaeth cerrig o'r canoloesoedd cynnar yng Nghymru.

6. Yn ogystal â'r themâu blynyddol a'r eitemau unigol y cyfeiriwyd atynt, mae'r Bwrdd yn cyfrannu drwy'r amrywiaeth o arbenigedd sydd ganddo at drafod materion a ffurfio polisi, yn gysylltiedig ag etifeddiaeth hanesyddol Cymru yn gyffredinol. Yn arbennig, mae'n ceisio hyrwyddo integreiddiad agosach rhwng y gwahanol gyrff – gan gynnwys awdurdodau lleol, asiantaethau cefn gwlad, asiantaethau archeolegol a chwmnïau cyfleustodau – i sicrhau y diogelir amgylchedd hanesyddol Cymru, yn yr ystyr fwyaf eang, yn sensitif ac y'i rheolir er budd cenedlaethau heddiw ac yfory.

7. Gellir rhoi crynodeb o rôl y Bwrdd wrth gynghori'r Cynulliad Cenedlaethol fel a ganlyn:

- ystyried fel thema flynyddol broblemau a materion sy'n gysylltiedig â diogelu, gwarchod a chyflwyno agwedd neilltuol o etifeddiaeth Cymru a chynnig cyngor ymarferol a strategol
- cynghori Cadw ar faterion ehangach

5. For the current and future years the Board has decided to focus its main summer meeting each year on a particular aspect of Cadw's work. For 1999–2000 the theme is the protection, conservation and presentation of industrial monuments throughout Wales. A series of site visits — illustrating the problems facing industrial conservation, and some of the solutions, such as input by voluntary organizations and trusts — and specific discussion helped the Board to advise Cadw on future priorities in this difficult area. For 2000–01 the Board will direct its attention to the care and conservation of the early medieval inscribed stones and stone sculpture of Wales.

6. In addition to such annual themes and the individual items referred to it, the Board contributes through its collective expertise to the discussion of issues, and the formulation of policy, relating to the Welsh historic heritage generally. In particular, it seeks to promote closer integration between the various bodies — including local authorities, countryside agencies, archaeological agencies and utility companies — in ensuring that the historic environment of Wales, in the broadest sense, is sensitively protected and managed for the benefit of current and future generations.

7. Details of the Board's role in advising the National Assembly may be summarized as:

- to consider as an annual theme problems and issues associated with the protection, conservation and presentation of a particular aspect of the Welsh heritage and offer practical and strategic advice;
- to advise Cadw on wider issues associated

sy'n ymwneud â diogelu a rheoli tirwedd hanesyddol Cymru

- cynghori ar gyfeiriad strategol a thueddiadau penodol o ran cymorth grant Cadw i bedair Ymddiriedolaeth Archeolegol Cymru i ddarparu gwybodaeth ar gyfer y rhaglen grantiau derfynol ynghyd ag adolygu effeithlonrwydd y rhaglen honno yn flynyddol.
- cynghori ar y tueddiadau cyffredinol yn rhaglenni Cadw o ran grantiau henebion a chytundebau rheoli.
- cynghori ar y cyfeiriad strategol a monitro rhaglen gofrestru Cadw, gyda Cadw yn darparu adroddiadau blynyddol ar gynnydd.
- adolygu adroddiadau'r wardeniaid henebion maes a gyflwynir bob pum mlynedd ar gyflwr cyffredinol yr henebion cofrestredig.
- darparu cyngor mewnlol ad hoc i Cadw ar faterion a pholisïau cyffredinol wrth iddynt godi.
- cynghori ar bob datblygiad mawr sy'n ymwneud â henebion sydd yng ngofal Cadw.
- cynghori ar yr adroddiad a wneir bob pum mlynedd ar warchod henebion sydd yn ei ofal.
- cynghori ar henebion a argymhellir i'w gwarchod.
- cynghori ar a monitro rhaglen cyhoeddi arweinlyfrau Cadw.
- gwneud sylwadau ar bapurau ymgynghorol y Llywodraeth a dogfennau strategol drafft.
- cynghori sefydliadau a chyrrff treftadaeth eraill megis Cronfa Treftadaeth y Loteri a'r Cyngor Adeiladau Hanesyddol, i sicrhau dull o weithredu ar y cyd sy'n canolbwyntio ar faterion sydd o ddiddordeb archeolegol a hanesyddol.

with the protection and management of the historic landscape of Wales;

- to advise on the strategic direction and specific trends in Cadw's grant funding to the four Welsh Archaeological Trusts to inform the final grant programme, as well as reviewing the effectiveness of that programme on an annual basis;
- to advise on overall trends in Cadw's ancient monuments grant and management agreement programmes;
- to advise on the strategic direction and monitor Cadw's scheduling programme, with Cadw providing annual reports on progress;
- to review quinquennial field monument warden reports on the overall condition of scheduled ancient monuments;
- to provide ad hoc internal advice to Cadw on general issues and policies as they arise;
- to advise on all major developments at ancient monuments in Cadw's care;
- to advise on the quinquennial report on the conservation of ancient monuments in care;
- to advise on monuments recommended for guardianship;
- to advise on and monitor Cadw's guidebook publication programme;
- to comment on Government consultation papers and draft strategic documents;
- to advise other heritage organizations and bodies such as the Heritage Lottery Fund and the Historic Buildings Council, to ensure a focused and concerted approach to matters of archaeological and historical interest.

AMCANION Y  
BWRDD HENEBION

Statudol – Y Bwrdd Henebion sydd â'r gorchwyl o gynghori Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyflawni ei ddyletswyddau o dan Ddeddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979 ac yn arbennig:

- cynghori'r Cynulliad ar gynigion i gofrestru, ail-gofrestru a datgofrestru henebion o dan Ddeddf 1979;
- cynghori'r Cynulliad ar derfynu cytundeb gwarchodaeth o dan adran 14 o Ddeddf 1979;
- cynghori'r Cynulliad ar gael gwared ar unrhyw dir a gafwyd o dan adrannau 10, 11 neu 21 o Ddeddf 1979.

Anstatudol — Rhoi cyngor arbenigol i'r Cynulliad ar bob mater, gan gynnwys deddfwriaeth, polisi a materion gweithredol, gan gynnwys diogelu, gwarchod, datblygu a chyflwyno etifeddiaeth adeiledig Cymru, yn arbennig:

- cynghori'r Cynulliad ar ddiogelu a chyflwyno henebion o bwysigrwydd cenedlaethol ynghyd â'u lleoliad;
- cynghori'r Cynulliad ar ddiogelu, gwarchod a chyflwyno henebion yn ei ofal;
- cynghori'r Cynulliad ar faterion sy'n effeithio ar archeoleg a gwarchod etifeddiaeth adeiledig Cymru;
- annog y berthynas waith agosaf bosibl gydag a rhwng cyrff eraill ac unigolion sydd â'r nod o ddiogelu etifeddiaeth adeiledig Cymru; a hyrwyddo'r modd y'i deillir a'i mwynheir.

OBJECTIVES OF THE ANCIENT  
MONUMENTS BOARD

Statutory — The Ancient Monuments Board is charged with advising the National Assembly for Wales on the exercise of its responsibilities under the Ancient Monuments and Archaeological Areas Act 1979 and in particular:

- to advise the Assembly on proposals to schedule, reschedule and deschedule monuments under the 1979 Act;
- to advise the Assembly on the termination of a guardianship agreement under section 14 of the 1979 Act;
- to advise the Assembly on the disposal of any land acquired under sections 10, 11, or 21 of the 1979 Act.

Non-Statutory — to provide the Assembly with expert advice on all matters, including legislation, policy and executive issues, involving the protection, conservation, development and presentation of the built heritage in Wales.

- to advise the Assembly on the protection and presentation of monuments of national importance along with their setting;
- to advise the Assembly on the protection, preservation and presentation of monuments in its care;
- to advise the Assembly on issues affecting archaeology and the conservation of the built heritage in Wales;
- to encourage the closest possible working relationship with and between other bodies and individuals whose objective is to safeguard Wales's built heritage and promote its understanding and enjoyment.



